# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 1**

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Y seiliau dros ymyrryd*

**2 Y seiliau dros ymyrryd**

At ddibenion y Bennod hon, mae'r seiliau dros ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir fel a ganlyn—

SAIL 1 - Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.

At y diben hwn, mae safonau perfformiad disgyblion yn isel os ydynt yn isel drwy gyfeirio at unrhyw un neu fwy o'r canlynol—

(a) y safonau y gellid yn rhesymol ddisgwyl o dan yr holl amgylchiadau i'r disgyblion eu cyrraedd;

(b) pan fo'n berthnasol, y safonau a gyrhaeddwyd ganddynt o'r blaen;

(c) y safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion cyffelyb.

SAIL 2 -Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu.

SAIL 3 -Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

SAIL 4 -Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall).

SAIL 5 -Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 6 - Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

SAIL 7 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd") wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol a bod yr hysbysiad hwnnw heb ei ddisodli—

(a) gan y Prif Arolygydd wrth iddo roi hysbysiad o dan yr adran honno i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol, neu

(b) gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.

SAIL 8 - Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005 i ddweud ei bod yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd mewn perthynas â'r ysgol ac nad yw'r hysbysiad hwnnw wedi ei ddisodli gan berson sy'n gwneud arolygiad dilynol ac yn llunio adroddiad sy'n datgan nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol mwyach yn ei farn ef.